



Syrpréis Nadoligaidd wedi'i gynllunio i ddod â hwyl yr Ŵyl, yn dilyn canslo digwyddiad blynyddol cynnau'r goleuadau Nadolig, oherwydd Covid-19

Mae cyngerdd Pop Nadolig a chynnau Goleuadau Nadolig y Rhyl wedi'u canslo, i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn ystod pandemig Covid-19.

Mae'r digwyddiadau, a drefnir yn draddodiadol gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf, gyda chefnogaeth Cyngor Tref y Rhyl, wedi'u canslo i ddiogelu iechyd pawb a oedd ynghlwm wrth y digwyddiadau.

Y llynedd, fe wnaeth tyrfaoedd ymgynnull ar y stryd fawr i weld cyn seren Coronation Street, Catherine Tyldesley, yn cynnau'r goleuadau Nadolig yng nghanol tref y Rhyl. Daeth cannoedd o bobl gyffrous i weld y cyngerdd Pop Nadolig, am noson llawn cerddoriaeth ac adloniant.

Dywedodd Jamie Groves, Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf: "Rydym wedi bod yn monitro cyngor y llywodraeth yn agos ac ar ôl llawer o drafodaethau ac ystyriaethau gofalus, rydym wedi dod i'r casgliad anochel hwn. Rydym wedi gwneud ein penderfyniad yn sgil yr heriau a gyflwynwyd gan Covid-19, a'r disgwyliad parhaus o fesurau cadw pellter cymdeithasol.

"Yn anffodus, rydym yn teimlo na fyddem yn gallu sicrhau diogelwch staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr yn y digwyddiadau hyn, neu'n dymuno rhoi straen ychwanegol ar y gwasanaethau brys yn ystod cyfnod mor anodd. Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn siomedig iawn wrth gwrs, ond maent bellach yn canolbwyntio ar sicrhau y bydd rhaglen ddigwyddiadau'r flwyddyn nesaf yn well nag erioed.

Mae Maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard, wedi rhoi ambell lygedyn o hwyl yr Ŵyl i breswylwyr ac ymwelwyr, wrth iddi ddatgelu bod y cyngor tref yn gweithio ar ddigwyddiad amgen ar gyfer eleni.

Dywedodd Maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard: "Mae cynnau'r goleuadau a'r cyngerdd Pop Nadolig fel arfer yn ddau uchafbwynt yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig yn y Rhyl. Ond rydym yn deall yn iawn ac yn cefnogi'r rhesymau dros beidio â'u cynnal eleni. Er ei fod yn siomedig, bydd ein tref yn parhau i gael ei goleuo ac yn hudolus drwy gydol yr Ŵyl. Mae gan y cyngor tref rywbeth bach i fyny ei lawes, a fydd yn dod â hwyl yr Ŵyl i blant ym mhobman, gan eu galluogi i fwynhau rhywbeth Nadoligaidd o gysur a diogelwch eu cartrefi eu hunain. Gwylwch y gofod a byddwn yn rhyddhau manylion yn fuan."